

Gofynion Mynediad

Fel canllaw, lefel mynediad y Cwrs Uwch ar gyfer ymgeiswyr iau (Blwyddyn 7) yw tua Gradd 5 (ABRSM) gyda theilyngdod neu ragoriaeth*.

Yn gyffredinol disgwylir lefel uwch gan fyfyrwyr hŷn; fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth i botensial cerddorol, yn ogystal ag oedran ac offeryn/llais.

Y lefel mynediad ar gyfer Cerddoriaeth yn Gyntaf yw tua Gradd 1 (ABRSM)*.

** Sylwer: Cyfeirir at y graddau hyn i roi syniad o lefel chwarae ac nid oes rhaid bod arholiadau wedi cael ei sefyll.*

Rhaid i ymgeiswyr piano gael mynediad at biano acwstig adref.

Gofynion Clyweliad

1. Recordiwch ac uwchlwythwch fideo o'r ymgeisydd yn perfformio:
 - a. prif astudiaeth: dau ddarn/dwy gân sy'n **gyferbyniol**
 - i. Ar gyfer offerynwyr: pedair graddfa a phedwar arpeggio o'ch dewis. Amrywiwch ddull eu chwarae, h.y., recordiwch gymysgedd o raddfeydd ac arpeggios legato a staccato
 - ii. Ar gyfer cantorion: enghreifftiau o rai o'ch ymarferion llais/dulliau cynhesu
 - b. astudiaeth ychwanegol (os yn briodol): un darn/cân
2. Mae gennym ddiddordeb mawr mewn cael gwybod am brofiad cerddorol yr ymgeisydd a gofynnwn iddynt recordio eu hunain yn rhoi atebion llafar byr i'r cwestiynau canlynol:
 - a. Am faint ydych chi wedi bod yn dysgu chwarae eich offeryn/canu ac ers faint ydych chi wedi bod yn cael gwersi?
 - b. Soniwch wrthym am eich gwersi – a yw'r rhain yn wythnosol, a ydynt yn digwydd yn unigol neu mewn grwpiau, a pha mor hir yw eich gwersi (e.e., 30 munud, 45 munud)?
 - c. Soniwch wrthym am eich gweithgareddau cerddorol a'ch nodau cerddorol. Ar gyfer y rheini sydd ym Mlwyddyn 11 ac uwch, a ydych chi'n dymuno astudio cerddoriaeth pan fyddwch yn gadael yr ysgol?

Beth sy'n Digwydd Nesaf?

Bydd y panel clyweliadau yn gwrandao ar eich recordiad, fel arfer o fewn tair wythnos iddo gael ei gyflwyno.

Bydd y panel yn cynnwys o leiaf ddau aelod o dîm y Conservatoire Iau. Bydd hyn bob amser yn cynnwys y pennaeth adran, a fydd yn cyfeirio at arbenigwr ar eich offeryn yn ôl y gofyn. Bydd y panel yn ystyried eich profiad cerddorol cyffredinol a'r nod yw edrych ar elfennau o'ch chwarae gan gynnwys safiad, techneg, dawn gerddorol ac ati.

Sut i Greu ac Uwchlwytho Fideo Clyweliad i YouTube

Paratoi ar gyfer eich recordiad

1. Defnyddiwch ystafell dawel gyda goleuo da a chyn lleied â phosib o atsain
2. Recordiwch y fideo ar ffurf tirlun
3. Gwnewch recordiad prawf gydag adrannau uchaf a thawelaf eich darnau/caneuon
4. Gwrandewch arnynt drwy glustffonau i weld a oes unrhyw beth yn:
 - afluniedig (e.e., craciog, rhy uchel)? Os oes, symudwch ymhellach oddi wrth eich dyfais recordio a rhowch gynnig arall arni
 - anghlywadwy? Os oes, symudwch yn agosach at eich dyfais recordio a/neu perfformiwch yn fwy uchel

Recordio eich fideo

1. Os gallwch, recordiwch holl ddeunydd eich clyweliad ar un neu ddau fideo. Peidiwch â phoeni os yw hyn yn golygu bod toriadau byr rhwng eitemau
2. Cofiwch gyflwyno eich darnau a dywedwch pa raddfeydd/arpeggios/ymarferion rydych yn eu chwarae/canu

Uwchlwytho eich fideo ar YouTube

1. Mewngofnodwch i YouTube. Gallwch wneud hyn gyda chyfrif YouTube sydd gennych eisoes neu drwy ddefnyddio cyfrif Google. Os nad oes gennych yr un o'r rhain, mae creu cyfrif YouTube newydd yn broses hawdd a chyflym
2. Os ydych wedi ffilmio eich fideo ar ffôn neu ddyfais llechen, gallwch uwchlwytho eich fideo gan ddefnyddio'r ap YouTube. I wneud hyn, gwasgwch yr eicon camera fideo ar ben uchaf eich sgrin yn yr ap YouTube, a dewiswch y fideo o'ch rôl camera
3. Os ydych yn uwchlwytho eich fideo o liniadur neu gyfrifiadur pen desg, ewch i youtube.com a chliciwch y saeth i fyny sydd yng nghornel uchaf dde y sgrin
4. Follow the steps on screen to upload your video
5. Labelwch eich fideo yn y modd canlynol:
 - eich new
 - y dyddiad
 - rhif Fideo Clyweliad Conservatoire Iau CBCDC (e.e., un o ddau, dau o ddau)
6. Ar y sgrin sydd â'r teitl 'Visibility' a gyda gosodiadau preifatrwydd, ticwch y blwch 'Unlisted'; bydd hyn yn gwneud yn siŵr mai dim ond pobl yr ydych yn anfon y ddolen iddynt all weld eich fideo
7. Anfonwch neges e-bost yn cynnwys y ddolen i'ch fideo anrhestredig i junior.conservatoire@rwcmd.ac.uk.